

Argraffwr Sgrin

Cyflwyniad

Mae Argraffwyr Sgrin yn defnyddio dull argraffu sgrin ffabrig. Byddwch yn argraffu dyluniadau, lluniau a delweddau eraill ar amrywiaeth o ddeunyddiau.

Adwaenir hefyd fel

- Argraffwr, Sgrin
- Argraffydd Sgrin Sidan



Gweithgareddau Gwaith

Fel Argraffwr Sgrin, byddwch yn ymwneud â'r broses o drosglwyddo delwedd ar amrywiaeth eang o ddeunyddiau, fel:

- dillad
- papur
- gwydr
- dur di-staen.

Byddwch yn paratoui a gweithredu'r peiriannau sy'n cael eu defnyddio i argraffu delweddau ar y deunyddiau a restrir uchod. Byddwch yn dewis a chymysgu'r inciau sydd i'w defnyddio cyn dechrau'r gwaith. Yna, byddwch yn gwneud stensil. Bydd y stensil yn cyfateb i'r siâp yr ydych chi eisiau ei argraffu ar y deunydd a ddewiswyd.

Mae'r stensil yn cael ei osod ar sgrin rwyll fân iawn. Yna, mae'r sgrin yn cael ei rhoi dros y deunydd sydd i gael ei argraffu. Mae inciau lliw trwchus yn cael eu gyrru trwy'r stensil ar y deunydd oddi tano. Mae'r sgriniau'n cael eu haildefnyddio ar ôl cael eu glanhau.

Gallai darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg fod o fantais wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

I fod yn Argraffwr Sgrin, fe ddylech chi:

- fod yn weithiwr cywir.
- bod â llygad da am liwiau.
- bod yn ffit yn gorfforol gyda chydymudiad da, yn enwedig ar gyfer gweithredu peiriannau.
- bod â rhywfaint o sgiliau artistig a thechnegol.

Mae sgiliau pobl yn bwysig yn y swydd hon hefyd, yn enwedig os ydych chi'n hunangyflogedig.

Mae'n bosibl na fydd y swydd hon yn addas i bobl sydd â chyflyrau croen, fel ecsema, neu anhwylderau anadlu, fel asthma.

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog Mae'r cyfraddau cyflog sy'n cael eu rhoi isod yn rhai bras.

- Yn dechrau: £20,000 - £22,000
- Gyda phrofiad: £24,000 - £26,500
- Mae Uwch Argraffwyr Sgrin yn ennill £29,000

Oriau gwaith

Mae Argraffwyr Sgrin fel arfer yn gweithio 37.5 awr yr wythnos; mae'n bosibl y bydd angen gwneud gwaith shifft a gweithio ar y penwythnos ac fe allai goramser fod ar gael. **Ble allwn i weithio?** Y cyflogwyr yw cwmnïau argraffu

sgrin arbenigol mawr a bach, a rhai adrannau argraffu mewn llywodraeth leol. Mae cyfleoedd ar gyfer Argraffwyr Sgrin yn codi gyda chwmnïau argraffu mewn trefi a dinasoedd ar draws y Deyrnas Unedig. **Hunangyflogaeth**

Mae cyfleoedd ar gael i Argraffwyr Sgrin fynd yn hunangyflogedig. **Ble mae swyddi'n cael eu hysbysebu?**

Mae swyddi'n cael eu hysbysebu ar yr holl brif hysbysfyrddau swyddi, ar Dod o Hyd i Swydd, ac yn y Ganolfan Byd Gwaith.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad

Nid oes llwybrau mynediad penodol i'r yrfa hon. Mae'n well gan rai cyflogwyr os oes gan ymgeiswyr rai cymwysterau TGAU mewn pynciau fel Saesneg, mathemateg neu TGCh gradd 9 - 4 (A* - C). Ond, mae'n bosibl na fydd angen unrhyw gymwysterau arnoch chi i gael y math hwn o waith. Mae Prentisiaeth Lefel Canolradd neu Brentisiaeth Lefel Uwch yn fan cychwyn da hefyd. Edrychwch ar ein herthygl gwybodaeth 'Prentisiaethau – Sut ydw i'n ymgeisio', am ragor o fanylion am ymgeisio am swyddi prentisiaeth. **Hyfforddiant**

Fel gweithwyr newydd, byddwch yn hyfforddi yn y gwaith ac efallai y byddwch chi'n mynd i'r coleg hefyd. Mae cyrsiau perthnasol ar gael ar draws y Deyrnas Unedig. Mae Cyrsiau Crefft yn cynnig cyflwyniad i brintio. Mae'r rhain wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn printio heb fawr o brofiad. Erbyn diwedd y cwrs, byddwch wedi dysgu:

- sut i ddefnyddio technegau ysgythriad
- sut i wneud monobrintiau gan ddefnyddio stensiliau a gweadau
- technegau printio sgrin syml i chi gychwyn arni

Profiad Gwaith Byddai profiad blaenorol a sicrhawyd yn y diwydiant printio neu ffotograffiaeth yn ddefnyddiol iawn ar gyfer yr yrfa hon.

Dilyniant Fe allech chi symud ymlaen i swyddi goruchwyllo fel arfer. Mae rhai Argraffwyr Sgrin yn mynd yn hunangyflogedig ac yn sefydlu eu busnesau eu hunain.

Cymwysterau

Mae'r gofynion mynediad ar gyfer yr yrfa hon yn amrywio yn ôl y cyflogwr. Mae'n bosibl na fydd angen unrhyw gymwysterau arnoch chi i gael y math hwn o waith.

Mae'n well gan rai cyflogwyr os oes gan ymgeiswyr rai cymwysterau TGAU mewn pynciau fel Saesneg, mathemateg neu TGCh gradd 9 - 4 (A* - C).

Fel arfer, i gael lle ar Brentisiaeth Lefel Canolradd neu Uwch, bydd angen 5 TGAU gradd C/4 neu uwch arnoch, gan gynnwys efallai Saesneg a mathemateg.

Cyfleoedd i Oedolion

Terfynau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad bennu terfynau oedran ar gyfer mynediad i waith, addysg neu hyfforddiant, oni bai eu bod yn gallu dangos bod gwir angen am y terfynau hyn.

Sgiliau/profiad

Bydd ymgeiswyr sydd â sgiliau ymarferol a gafwyd yn y diwydiant argraffu mewn sefyllfa well.

Mae cefndir mewn gwaith ymarferol gan ddefnyddio'ch dwylo yn ddefnyddiol. Fe all gallu artistig fod yn bwysig hefyd.

Cyrsiau

Mae rhai pobl yn ymuno â'r yrfa hon trwy Brentisiaeth Lefel Canolradd mewn Argraffu a Phecynnu Argraffedig.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Apprenticeships**
National Apprenticeship Service (NAS)
Ffôn 0800 015 0400
E-bost nationalhelpdesk@findapprenticeship.service.gov.uk
Gwefan www.apprenticeships.org.uk
- **Skills Development Scotland - Modern Apprenticeships**
Ffôn 0800 9178000
E-bost info@skillsdevelopmentscotland.co.uk
Gwefan www.myworldofwork.co.uk/modernapprenticeships
- **Belfast Metropolitan College**
Irish enquiries
Ffôn 028 9026 5265
E-bost admissions@belfastmet.ac.uk
Gwefan www.belfastmet.ac.uk
- **Proskills UK**
Skills for process and manufacturing industries
Cyfeiriad Centurion Court, 85b Park Drive, Milton Park, Abingdon, Oxfordshire OX14 4RY
Ffôn 01235 833844
E-bost info@proskills.co.uk
Gwefan www.proskills.co.uk
- **Prospect4u**
Careers in manufacturing
Gwefan www.prospect4u.co.uk
- **GQA Qualifications**
Cyfeiriad Unit 1, 12 O'clock Court, Attercliffe Road, Sheffield S4 7WW
Ffôn 0114 2720033
E-bost info@gqaqualifications.com
Gwefan www.gqaqualifications.com
- **ABC Awards**
E-bost centresupport@abcawards.co.uk
Gwefan www.abcawards.co.uk
- **British Printing Industries Federation (BPIF)**
Cyfeiriad 2 Villiers Court, Meriden Business Park, Copse Drive, Coventry CV5 9RN
Ffôn 0845 2507050
E-bost hello@bpif.org.uk
Gwefan www.britishprint.com
- **Institute of Paper, Printing and Publishing (IP3)**
Cyfeiriad Claremont House, 70-72 Alma Road, Windsor, Berkshire SL4 3EZ
Ffôn 0870 3308625
E-bost info@ip3.org.uk
Gwefan www.ip3.org.uk
- **National Skills Academy for Print**
Cyfeiriad 85B Park Drive, Milton Park, Abingdon, Oxfordshire OX14 4RY
Ffôn 01235 432030
E-bost info@mps-academy.co.uk
Gwefan www.printskillsacademy.co.uk
- **Careers Wales - Welsh Apprenticeships**
Ffôn 0800 028 4844
Gwefan ams.careerswales.com/

- **Craft Courses**

Ffôn 01239 805080

E-bost info@craftcourses.com

Gwefan www.craftcourses.com

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Argraffwr Peiriant
- Gweithiwr Reprograffeg
- Gorffennwr Argraffu
- Is-olygydd
- Golygydd
- Cynorthwy-ydd Golygyddol
- Darllenydd Proflenni
- Cyhoeddwr
- Geiriadurwr
- Arbenigwr Argraffu 3D